

Child Friendly Cardiff
Caerdydd Sy'n Dda i Blant

# 08 DARLLEN PELLACH

WWW.CAERDYDDSYNDDAIBLANT.CO.UK

Cardiff Youth Service
Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd

PENNOD 8

# DARLLEN PELLACH

## 8.1 CYNNWYS

**AGENDA SEILIEDIG AR HAWLIAU - DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL**

- Y Porth Cyfranogiad
- CCUHP
- Canllawiau Blast Off
- **NODI ANGHENION - DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU PELLACH**
- Arolwg Ysgolion
- Pecynnau Cymorth Ymchwil

**LLYWIO GWASANAETHAU - DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL**

- Llais Disgyblion
- Cyfranogi
- Democracy Cookbook

**SICRWYDD ANSAWDD – DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL**

- Y Siarter Rhieni
- Y Safonau
- Arolygwyr Ifanc

**DATBLYGU SGILIAU DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL**

- Agored Cymru
- Cynllun Sicrhau Ansawdd Blynyddol

# AGENDA SEILIEDIG ARE HAWLIAU
# DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL

## PORTH CYFRANOGIAD CYMRU

**http://www.participationhub.org.uk/**

Mae'r cynnwys ar y Porth Cyfranogiad yn amlygu rhywfaint o'r gwaith cyfranogi craidd yng Nghymru.

Edrychwch ar y gwefannau sydd ar y Porth i gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau, gwefannau, adnoddau a chyrsiau hyfforddi eraill ledled Cymru.

Mae'r Porth yn cynnwys dolenni allanol ac nid ydym yn gyfrifol am gynnwys gwefannau unigol a gyrchir drwy'r Porth. Ariennir "Y Porth Cyfranogiad" gan Llywodraeth Cymru ac fe'i cynhelir gan RhGCC (Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru).

Mae'r dolenni canlynol ar gael ar dudalen gyntaf y wefan hon

**Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru**

Gwasanaeth arfer da ag esiamplau o astudiaethau achos, digwyddiadau a dulliau cyfranogi o Gymru benbaladr

**Llais Disgyblion Cymru**

Gwybodaeth i ddisgyblion o ran cael llais yn yr ysgol, a syniadau o ran arfer da a phecynnau cymorth i oedolion.

**CLICarlein**

Rhwydwaith o wefannau gwybodaeth a chyngor lleol i bobl ifanc 11-25 oed, gyda chynnwys wedi'i ysgrifennu, ei olygu a'i gyhoeddi gan bobl ifanc.

**Comisiynydd Plant**

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn amddiffyn ac yn siarad ar ran plant a phobl ifanc. Mae'n gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn gwybod eu hawliau. .

**Draig Ffynci**

Gwefan i gynulliad plant a phobl ifanc Cymru, gyda gwybodaeth am gael llais yn y llywodraeth leol a chenedlaethol.

**CCUHP Let's Get It Right**

Gwefan i blant, pobl ifanc ac ymarferwyr sy'n codi proffil Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Thanks Sam**

Gwefan yn cefnogi Wythnos Gwaith Ieuenctid (1-7 Tachwedd). Mae'n cynnwys calendr o ddigwyddiadau i bobl ifanc, a gwybodaeth a chyngor i ymarferwyr.

**Voices From Care Cymru**

I blant a phobl ifanc sydd neu sydd wedi bod yn derbyn gofal. Mae VCF yn cefnogi aelodau, yn casglu eu barn ac yn rhoi llais iddynt.

**Meic Cymru**

Gwasanaeth llinell gymorth yn cynnig gwybodaeth, cymorth a chyngor i bobl 0-25 oed

**My Say Wales**

Gwefan ddeinamig yn llawn fideos arfer da mewn lleoliadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion. Gwybodaeth i bobl ifanc a syniadau i oedolion.

**Travelling Ahead**

Gwefan i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r wefan yn rhoi'r cyfle iddynt drafod materion sy'n bwysig iddyn nhw, ac adnoddau i weithwyr eu defnyddio â Sipsiwn a Theithwyr ifanc.

**See Me**

Ymgyrch i gael gwared ar ddelweddau negyddol o blant a phobl ifanc. Mae'r ymgyrch hon yn annog plant a phobl ifanc i rannu delweddau da a gwael, rhannu straeon cadarnhaol a gwneud gwahaniaeth gyda'i gilydd.

# AGENDA SEILIEDIG ARE HAWLIAU
# DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL

## CCUHP

**Hawliau Plant yng Nghymru, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

http://www.childrensrightswales.org.uk/uncrc.aspx?language=Cymraeg

Dyluniwyd y wefan hon i helpu ymarferwyr lleol, llunwyr polisi, rheolwyr a strategyddion i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut i fabwysiadu persbectif hawliau plant yn eu gwaith.

Cynhyrchir Hawliau Plant Cymru gan Achub y Plant sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan Llywodraeth Cymru. Mae llawer o'n partneriaid yn enwedig Grŵp Llywio CCUHP Cymru yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r adnodd hwn yn barhaus.

## CANLLAWIAU BLAST OFF!

http://www.participationworkerswales.org.uk/resources.aspx

The Blast Off! Mae'r canllawiau hyn yn esiampl o amryw ganllawiau arfer da a ddatblygwyd gan yr Uned Cyfranogiad ac yn seiliedig ar brofiadau gweithwyr yng Nghymru.

Lluniwyd naw canllaw yn wreiddiol fel adnoddau papur ac maent bellach ar gael i'w lawrlwytho yn unig. Mae mwy wedi'u datblygu ers hynny fel canllawiau y gellir eu lawrlwytho'n unig ac mae eraill wrthi'n cael eu datblygu.

## HAWLIAU PLANT YNG NGHYMRU

Dyluniwyd y wefan hon i helpu ymarferwyr lleol, llunwyr polisi, rheolwyr a strategyddion i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut i fabwysiadu persbectif hawliau plant yn eu gwaith.

Cynhyrchir Hawliau Plant Cymru gan Achub y Plant sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

http://www.childrensrightswales.org.uk

# NODI ANGHENION
# DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL

## AROLWG YSGOLION

http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2872,3257,6571,6572&parent_directory_id=2865&id=14005

Er mwyn clywed barn pobl ifanc 11-18 oed ledled Caerdydd mae Arolwg Ysgolion wedi'i ddatblygu. Arolwg ar-lein ydyw sy'n ceisio barn ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Cymdogaethau Lleol
- Diogelwch Cymunedol
- Gweithgareddau Hamdden
- Iechyd a lles
- Y rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth
- Ysgol neu Goleg

Mae'r arolwg yn cael ei gwblhau mewn ysgolion uwchradd ledled Caerdydd a'r gobaith yw y bydd dros 12,000 o ddisgyblion yn cymryd rhan bob blwyddyn academaidd. Caiff yr arolwg ei gwblhau hefyd gan y rheini nad ydynt mewn addysg.

Caiff canlyniadau cyntaf yr Arolwg Ysgolion eu cyhoeddi ar ddechrau 2013 a byddant ar gael o'r ddolen yma.

## GWEFAN HOLI CAERDYDD

Mae Canolfan Ymchwil Caerdydd yn dod ag ystod o ystadegau ynghyd, a gasglwyd o nifer o ffynonellau, am bobl Caerdydd, eu hamgylchiadau cymdeithasol, cyflogaeth ac economaidd, a'r amgylchedd masnachol a naturiol y maen nhw'n byw ynddo. Mae'n fan cychwyn i roi gwybod i bobl Caerdydd a helpu ymchwilwyr, cynllunwyr, llunwyr polisi, masnach a diwydiant wrth chwilio am ddata.

http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2872,3257,6571,6572&parent_directory_id=2865&id=14028

## DARLLEN PELLACH

Dyma rai adnoddau defnyddiol â rhagor o wybodaeth am ymchwil:


- Bryman, A. (2008) Social Research Methods. 3ydd Argraffiad Gwasg Prifysgol Rhydychen: Rhydychen
- Silverman, D. (2005) Doing Qualitative Research. 2il Argraffiad. Cyhoeddiadau Sage: Llundain
- Robson, C. (2002) Real World Research. 2il Argraffiad. Blackwell Publishing Ltd: Rhydychen

# LLYWIO GWASANAETHAU
# DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL

## LLAIS DISGYBLION

**LLAIS DISGYBLION CYMRU**
http://www.pupilvoicewales.org.uk/english/home/about-us/

Mae'r wefan hon yn siop un stop ar gyfer cyfranogiad disgyblion yng Nghymru!

Yma gallwch ddysgu am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r hyn y mae'n ei olygu i chi.

Dysgwch:

- Beth yw cyfranogiad disgyblion
- Pam fod hyn yn bwysig a
- Beth all hyn ei wneud i chi a'ch cymuned ysgol.

Ar y wefan, mae llawer o adnoddau i'ch helpu i wella cyfranogiad disgyblion.

**LLAIS DISGYBLION / DYSGWYR**
http://www.pupilvoicewales.org.uk/uploads/publications/534.pdf

Mae cynnwys dysgwyr fel partneriaid actif o ran llywio eu profiadau a'u hamgylchedd dysgu yn creu manteision o ran ymgysylltiad, hunan barch, hyder a sgiliau dysgwyr.

## CYFRANOGIAD

**PARTICIPATION — SPICE IT UP! – ACHUB Y PLANT**
h ttp://www.savethechildren.org.uk/resources/online-library/participation-%E2%80%94-spice-it

Mae'r canllaw difyr a bywiog hwn yn cynnig mwy na 40 o weithgareddau a gemau poblogaidd i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau.

Gellir archebu'r cyhoeddiad hwn gan ein dosbarthwr, NBN International.

"Dylai unrhyw grŵp, mawr neu fach, sydd eisiau datblygu dull creadigol ac effeithiol o gynnwys plant yn y broses gwneud penderfyniadau gael copi ohono a bod yn barod i gael hwyl!" Play words

Yn llawn pecynnau cymorth ymarferol a syniadau o ran sut i gynnwys plant a phobl ifanc, mae Participation – Spice it up! yn ffordd ddifyr o ddelio â materion difrifol.

## DEMOCRACY COOKBOOK

www.dopolitics.org.uk

Adnodd a ddefnyddir i gynnwys pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth yw'r Democracy Cookbook. Mae'r adnodd, a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol, yn cynnwys gwybodaeth annibynnol o ran beth yw gwleidyddiaeth, yr hyn a wna ein sefydliadau democrataidd a pham eu bod yn bwysig.

# SICRWYDD ANSAWDD
# DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL

## Y SIARTER RHIENI

**SIARTER AR GYFER CYFRANOGIAD RHIENI MEWN GWASANAETHAU I BLANT A THEULUOEDD YNG NGHAERDYDD**

Mae'r dogfennau hyn wedi'u hysgrifennu i gefnogi asiantaethau a gwasanaethau o ran datblygu cyfranogiad rhieni, cam gweithredu a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd.

I gael gwybodaeth am y pecyn hwn, cysylltwch â:

Ff: 02920 872749
E: connect8-25@caerdydd.gov.uk

## Y SAFONAU

**DO WE YOU'RE YOUR STANDARDS, HAVING A VOICE, HAVING A CHOICE –**

http://www.pupilvoicewales.org.uk/secondary/about-us/national-children-and-young-peoples-participation-standards-for-wales

Mae 7 Safon Genedlaethol y dylai sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc geisio eu cyrraedd fel bod plant a phobl ifanc yn cael profiad da o gyfranogi. Mae'r safonau hyn yn hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc o ran gwneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu unrhyw gamau a fydd yn effeithio arnyn nhw – 'Cael Llais, Cael Dewis'. Rydym yn defnyddio'r Safonau hyn yn ein gwaith ac yn helpu sefydliadau eraill i'w defnyddio wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r Safonau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cenedlaethol ar gael i'w lawrlwytho o'r ddolen hon.

## AROLYGWYR IFANC

Mae Darllen Pellach a Dolenni Allanol ar gael yn y Canllaw Blast Off.

# DATBLYGU SGILIAU
# DARLLEN PELLACH AC ADNODDAU YCHWANEGOL

## AGORED CYMRU

Agored Cymru yw'r sefydliad dyfarnu yng Nghymru sy'n arbenigo mewn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng Nghymru.

Rydym yn datblygu cymwysterau a chyfleoedd achredu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru, gan helpu unigolion, cymunedau a chyflogwyr, o bob cefndir, i fanteisio ar gyfleoedd dysgu.

Gyda thros 20 mlynedd o brofiad o roi credydau yng Nghymru, mae ein tîm o arbenigwyr yn gweithredu ledled Cymru ac yn rhoi cymorth datblygu cwricwlwm a sicrhau ansawdd ac maent wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy annog asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## CYNLLUN SICRHAU ANSAWDD BLYNYDDOL

gofnodi a dathlu cyflawniadau pobl ifanc o bob oed a gallu. Caiff ei gynnig gan SAB, y corff dyfarnu unedol mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar ddull 'uned' lle ceir tystysgrifau am unedau bach o waith a gwblheir.

Er nad yw'r Cynllun yn gymhwyster, cynigir yr unedau unigol ar amryw lefelau o lefel cyn mynediad i lefel 2 (graddfeydd TGAU A*- C) a thu hwnt. Mae'r unedau y bydd pobl ifanc yn eu cwblhau trwy Pasbort, Comisiynydd Ifanc a'r Cyfwelydd Ifanc ar gael ar lefel cyn mynediad a lefel mynediad. Mae hyn yn sicrhau y gall pobl ifanc gan gynnwys y rheiny ag anawsterau dysgu ac anableddau; anawsterau ymddygiad, a chyflawnwyr ysgol isel gyflawni'r amryw unedau.

Gall cydnabyddiaeth ffurfiol o'r dysgu hwn, trwy'r SAB, wneud gwahaniaeth mawr i gyfleoedd bywyd person ifanc o ran paratoi ar gyfer gwaith neu addysg bellach, paratoi ar gyfer byw'n annibynnol a dod yn ddinesydd gwybodus, brwd sy'n cyfranogi.

Mae rhai unedau yn mynnu bod person ifanc yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o gyflawniad; fodd bynnag cwblheir y mwyafrif o'r asesu trwy drafodaeth un i un neu drwy arsylwi'r person ifanc.